Enw'r Ymgeisydd	Rhif y Ganolfan					Rhif yr Ymgeisydd				

TAG UG a SAFON UWCH
IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT

UNED 1

HYBU IECHYD A LLESIANT

DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL

2 awr

DRAFT

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Atebwch **BOB** cwestiwn.

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd gwag priodol yn y llyfryn hwn.

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Peidiwch â defnyddio pensil na beiro gel.

Peidiwch â defnyddio hylif cywiro.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Rhoddir y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn. Dylech rannu eich amser yn unol â hynny.

80 yw cyfanswm y marciau sydd ar gael.

Cofiwch fod angen i chi ysgrifennu eich atebion mewn Cymraeg da a'u cyflwyno'n drefnus. Bydd ansawdd eich cyfathrebu ysgrifenedig, gan gynnwys defnydd cywir o atalnodi a gramadeg, yn cael ei asesu yn eich ateb i gwestiwn 7.

*Atebwch **bob** cwestiwn.*

1. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn un enghraifft o ddeddfwriaeth sydd wedi cael ei chynllunio'n benodol i Gymru.

Disgrifiwch brif egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 [8]

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

DRAFT

2. (a) Amlinellwch ystyr llesiant, gan gyfeirio'n benodol at blant, yn ôl diffiniad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. [6]

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

DRAFT

(b) Mae sawl model yn ymwneud ag iechyd, anabledd a llesiant.

Cyferbynnwch y model cymdeithasol a'r model biofeddygol o iechyd, anabledd a llesiant. [6]

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

DRAFT

3. Mae rhaglenni imiwneiddio yn un math o fesur ataliol.

Ystyriwch sut byddai strategaethau lleol a chenedlaethol a dewisiadau ffordd o fyw yn gallu cefnogi mesurau ataliol. [10]

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

DRAFT

4. Mae Dechrau'n Deg yn enghraifft o fenter gan Lywodraeth Cymru a gynlluniwyd i gyfrannu at wella iechyd, llesiant a gwydnwch y boblogaeth yng Nghymru.

Esboniwch rôl Dechrau'n Deg yn gwella iechyd, llesiant a gwydnwch plant yng Nghymru. [8]

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

DRAFT

5 (a) Defnyddir y gair 'sylfaenol' *(primary)* i ddisgrifio un dull o hybu iechyd, llesiant a gwydnwch, gan mai ei nod yw lleihau'r risg i'r boblogaeth gyfan. [6]

(i) Disgrifiwch ddau ddull arall o hybu iechyd, llesiant a gwydnwch, gan roi enghraifft o bob un.

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

DRAFFT

(ii) Amlinellwch sut mae tueddiadau a phatrymau cyfredol o ran iechyd, llesiant a gwydnwch y boblogaeth yng Nghymru yn cefnogi'r angen am ymgyrchoedd iechyd a llesiant. [6]

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

DRAFFT

(b) Trafodwch brif fanteision a chyfyngiadau'r rolau hybu iechyd mewn perthynas â hybu iechyd, llesiant a gwydnwch. [8]

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

DRAFT

6. Mae gordewdra yn enghraifft o ffactor risg sy'n gallu cael ei haddasu o ran iechyd, llesiant a gwydnwch.

Esboniwch sut gall **dau** ffactor risg arall sy'n gallu cael eu haddasu effeithio ar iechyd, llesiant a gwydnwch. [8]

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

DRAFT

7. Disgrifiwch brif nodweddion cysyniadau cyfannol o iechyd a llesiant, ac ystyriwch sut mae penderfynyddion cymdeithasol ac economaidd *(social and economic determinants)* yn cyfrannu at anghydraddoldebau ym maes gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. [14]

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

……..

DRAFT

Parhad yn unig

DRAFT

CYNLLUN MARCIO

Canllawiau i arholwyr

Marcio cadarnhaol

Dylid cofio bod ymgeiswyr yn ysgrifennu o dan amodau arholiad a dylid rhoi clod am yr hyn mae’r ymgeisydd yn ei ysgrifennu yn hytrach na mabwysiadu’r dull o’i gosbi am unrhyw hepgoriadau. Dylai fod yn bosibl i ateb da iawn gael marciau llawn ac i ateb gwael iawn gael dim marciau. Ni ddylid tynnu marciau am ateb sy'n llai na pherffaith os yw'n bodloni meini prawf y cynllun marcio.

Dylid cymhwyso'r cynllun marcio'n fanwl gywir ar gyfer cwestiynau sy'n wrthrychol neu'n seiliedig ar bwyntiau. Dylid rhoi marciau fel y dangosir heb isrannu ymhellach.

Mae cynlluniau marcio yn aml yn rhestru pwyntiau y gellir eu cynnwys yn atebion ymgeiswyr. Nid yw’r rhestr yn un gwbl gyflawn. Mae cynnwys *'Dylid rhoi credyd am unrhyw ymateb dilys arall'* (neu gyfarwyddyd tebyg) mewn cynlluniau marcio yn caniatáu ar gyfer amrywiadau posibl yn ymatebion ymgeiswyr. Dylid rhoi marciau am fanwl gywirdeb a pherthnasedd atebion ymgeiswyr.

Mae ymatebion enghreifftiol yn y cynlluniau marcio'n cyfleu terminoleg briodol. Fodd bynnag, onid yw cwestiwn yn gofyn yn benodol am rywbeth, gellir rhoi marciau i ymgeiswyr am ateb sy'n gywir ond wedi'i fynegi yng ngeiriau'r ymgeisydd ei hun.

Cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau

Ar gyfer cwestiynau a gaiff eu marcio yn seiliedig ar fandiau, mae'r cynlluniau marcio mewn dwy ran, sef y cynnwys dangosol a'r grid asesu.

Mae'r cynnwys dangosol yn awgrymu’r amrywiaeth o bwyntiau a materion a allai gael eu cynnwys yn atebion ymgeiswyr. Gellir ei ddefnyddio i asesu ansawdd ymateb yr ymgeisydd. Fel y nodwyd uchod, ni fwriedir i gynnwys dangosol fod yn gynhwysfawr ac ni ddylai ymgeiswyr orfod cynnwys yr holl gynnwys dangosol i gyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio.

Fodd bynnag, er mwyn cyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio, rhaid i ymgeisydd fodloni gofynion y band marciau uchaf. Os nad yw ymateb yn haeddu ennill marciau, hynny yw heb fod yn cynnwys unrhyw beth sy’n berthnasol i’r cynllun marcio, neu os na roddwyd ymateb, ni roddir unrhyw farciau.

Mewn TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant, bydd pob cwestiwn yn ymdrin ag un amcan asesu neu fwy: o AA1, AA2 neu AA3. Lle y bo'n briodol, mae’r grid asesu yn isrannu cyfanswm y marciau y gellir eu dyrannu i gwestiwn yn amcanion asesu unigol. Dangosir y rhain mewn bandiau yn y cynllun marcio. Ar gyfer pob amcan asesu, bydd disgrifyddion yn dangos y sgiliau a’r rhinweddau gwahanol ar y lefel briodol.

Asesir ymatebion ymgeiswyr i gwestiynau yn erbyn yr amcanion asesu perthnasol. Lle bo cwestiwn yn ymdrin â mwy nag un amcan asesu, gall ymgeiswyr gyflawni gwahanol fandiau o fewn y cwestiwn hwnnw. Yn yr achosion hyn, dyfernir marc am bob amcan asesu ac wedyn caiff y marciau hynny eu hadio at ei gilydd er mwyn rhoi marc cyffredinol ar gyfer y cwestiwn.

Dylid bob amser bod yn gadarnhaol wrth farcio cwestiynau gan ddefnyddio bandiau marcio. Mae hynny'n golygu, ar gyfer ymateb pob ymgeisydd, bod marciau'n cael eu cronni am arddangos sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol: nid ydyn nhw'n cael eu tynnu o uchafswm oherwydd gwallau neu hepgoriadau.

DRAFT

I ddechrau, dylai arholwyr ddarllen ac anodi ateb yr ymgeisydd er mwyn nodi'r dystiolaeth sy'n cael ei hasesu yn y cwestiwn hwnnw. Yna gellir cymhwyso'r cynllun marcio. Proses dau gam yw hon.

Cam 1 – Penderfynu ar y band

Gan ddechrau gyda'r band isaf, dylai arholwyr edrych ar ateb yr ymgeisydd a chadarnhau p'un a yw'n cyfateb i'r disgrifyddion ar gyfer y band hwnnw. Os bodlonir y disgrifyddion ar y band isaf, dylai arholwyr symud i fyny i'r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band nes bydd y disgrifyddion yn cyfateb i'r ateb.

Os bydd ateb yn ymdrin ag agweddau gwahanol ar fandiau gwahanol yn y cynllun marcio, dylid mabwysiadu dull 'ffit orau' er mwyn penderfynu ar y band ac yna dylid defnyddio ymateb yr ymgeisydd i benderfynu ar y marc o fewn y band. Er enghraifft, os yw ateb ym mand 2 yn bennaf ond bod rhywfaint o gynnwys band 3, byddai'r ateb yn cael ei roi ym mand 2, ond byddai'r marc a ddyfernir yn agos at ben uchaf band 2 oherwydd y cynnwys band 3.

Ni ddylai arholwyr geisio tynnu marciau oddi ar ymgeiswyr oherwydd mân hepgoriadau mewn meysydd nad ydynt yn bwysig mewn ateb.

Cam 2 – Penderfynu ar y marc

Wrth safoni (cynhadledd farcio), bydd yr Uwch Arholwr yn rhoi cyngor manwl ar rinweddau pob band marciau. Yna bydd yr arholwyr yn cael enghreifftiau o atebion ym mhob band marciau y mae'r Uwch Arholwr wedi dyfarnu marciau amdano. Dylai'r arholwyr farcio'r enghreifftiau a chymharu eu marciau â marciau'r Uwch Arholwr.

Wrth farcio, gall arholwyr ddefnyddio'r enghreifftiau hyn i benderfynu a yw ateb ymgeisydd yn well, yn waeth neu o safon gymharol i'r enghraifft. Rhaid i'r arholwyr gofio bod angen cyfeirio'n ôl at yr ateb wrth iddynt gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc a bennir yn briodol.

DRAFT

Cwestiwn	Ateb	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm Marciau
1.	*Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn un enghraifft o ddeddfwriaeth sydd wedi cael ei chynllunio'n benodol i Gymru.* *Disgrifiwch brif egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.*	8			8
	Gall atebion gyfeirio at: • helpu pobl ag anghenion gofal a chymorth i sicrhau llesiant • darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnyn nhw, a gofalwyr y mae angen iddyn nhw gael eu cefnogi, ac i weddnewid y gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru • grymuso'r rheini sy'n darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant i gydgynhyrchu datrysiadau ag unigolion y mae angen gofal a chefnogaeth arnynt a gofalwyr y mae angen cefnogaeth arnynt • ceisio atal anghenion rhag cynyddu, gan sicrhau bod yr help priodol ar gael ar yr adeg briodol • helpu i sicrhau bod gan ofalwyr yr un hawl i gael eu hasesu â'r unigolion y maent yn gofalu amdanynt • helpu i sicrhau bod gwybodaeth a chyngor ar gael yn hawdd i bawb. Mae'r ddeddfwriaeth yno i gefnogi: • iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol • amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod • addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden • perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol • cyfraniad a wneir at y gymdeithas • sicrhau hawliau a hawlogaethau *(rights and entitlements)* • llesiant cymdeithasol ac economaidd • addasrwydd llety byw • datblygiad corfforol, deallusol (gwybyddol), emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol plant • lles plant • rheolaeth ar fywyd pob dydd i oedolion • cymryd rhan mewn gwaith i oedolion. Gall atebion gyfeirio at y ffordd mae'r Ddeddf yn hyrwyddo iechyd, llesiant a gwydnwch. Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.				

DRAFT

Band	AA1
4	**7-8 marc** Disgrifiad gwych sy'n dangos: • gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o brif egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 • dealltwriaeth hyderus o gysyniadau allweddol h.y. canolbwyntio ar bobl y mae angen iddyn nhw gael gofal a chymorth, grymuso, cydgynhyrchu, partneriaethau.
3	**5-6 marc** Disgrifiad da sy'n dangos: • gwybodaeth a dealltwriaeth gyffredinol gadarn o brif egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 • dealltwriaeth gyffredinol gadarn o gysyniadau allweddol h.y. canolbwyntio ar bobl y mae angen iddyn nhw gael gofal a chymorth, grymuso, cydgynhyrchu, partneriaethau.
2	**3-4 marc** Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos: • rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o rai o brif egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 • rhywfaint o ddealltwriaeth o gysyniadau allweddol h.y. canolbwyntio ar bobl y mae angen iddyn nhw gael gofal a chymorth, grymuso, cydgynhyrchu neu bartneriaethau.
1	**1-2 farc** Disgrifiad cyfyngedig sy'n dangos: • fawr o wybodaeth a dealltwriaeth o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 • fawr o ddealltwriaeth o gysyniadau allweddol, megis canolbwyntio ar bobl y mae angen iddyn nhw gael gofal a chymorth.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

DRAFT

Cwestiwn		Ateb	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm Marciau
2	(a)	*Amlinellwch ystyr llesiant, gan gyfeirio'n benodol at blant, yn ôl diffiniad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.*	6			6
		Mae llesiant, mewn perthynas â phlentyn (yn ôl diffiniad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) yn golygu llesiant mewn perthynas ag unrhyw un neu rai o'r canlynol: • iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol • amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod • addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden • perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol • cyfraniad a wneir at y gymdeithas • sicrhau hawliau a hawlogaethau *(rights and entitlements)* • llesiant cymdeithasol ac economaidd • addasrwydd llety byw. Yn benodol, wrth gyfeirio at blant: • datblygiad corfforol, deallusol (gwybyddol), emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol • 'lles' yn ôl y diffiniad a geir o'r term Saesneg cyfatebol *"welfare"* at ddibenion Deddf Plant 1989.				

Band	AA1
3	**5-6 marc** Amlinelliad da iawn sy'n: • dangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o'r ffordd mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio ystyr llesiant. • canolbwyntio'n glir ar beth yw ystyr llesiant i blant.
2	**3-4 marc** Amlinelliad da sy'n: • dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyffredinol gadarn o'r ffordd mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio ystyr llesiant. • canolbwyntio'n bennaf ar beth yw ystyr llesiant i blant.
1	**1-2 farc** Amlinelliad sylfaenol sy'n: • dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth, yn gyffredinol, o'r ffordd mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio ystyr llesiant. • cyffredinol o ran ei natur yn hytrach nag yn canolbwyntio ar beth yw ystyr llesiant i blant.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

DRAFT

Cwestiwn		Ateb	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm Marciau
2	(b)	*Mae sawl model yn ymwneud ag iechyd, anabledd a llesiant.* *Cyferbynnwch y model cymdeithasol a'r model biofeddygol o iechyd, anabledd a llesiant.*			6	6
		Noder bod marciau'n cael eu rhoi am gyferbynnu'r ddau fodel, yn hytrach nag am eu cymharu, felly dylid canolbwyntio ar y gwahaniaethau yn hytrach na'r hyn sy'n debyg. Gall atebion gyfeirio at: **Y model cymdeithasol**: • rhwystrau mewn cymdeithas, nid iechyd, nam na'r hyn sy'n eu gwneud yn wahanol sy'n allgáu unigolion • gall rhwystrau fod yn gorfforol neu'n agweddol *(attitudinal)* • gall rhwystrau wneud bywyd yn fwy anodd i unigolion. **Y model biofeddygol:** • mae'n tybio bod salwch neu glefyd yn bodoli • mae'n pwysleisio diagnosis clinigol ac ymyrraeth feddygol wrth drin clefyd neu ei symptomau. Gall sylwadau gynnwys y canlynol (a gall hefyd gynnwys enghreifftiau): • Model biofeddygol – mae'n pwysleisio trin unigolion ar wahân i'w ffordd o fyw/amodau byw, gan ganolbwyntio ar y clefyd, yr afiechyd neu'r anabledd a helpu i wella'r unigolyn i'w gyflwr cyn yr afiechyd. Nid yw'r rhesymau dros yr afiechyd yn sail i'r model biofeddygol. • Mae'r model cymdeithasol yn mynd i'r afael â materion ehangach ynghylch iechyd, drwy ddefnyddio 'dull gweithredu cymunedol' er mwyn atal afiechyd. Mae'r model cymdeithasol yn mynd y tu hwnt i ffordd o fyw ac ymddygiad ac mae'n annog yr angen am newid cymdeithasol. • Mae'r model cymdeithasol yn seiliedig ar y syniad bod yn rhaid newid ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd er mwyn gwneud gwelliannau. Mae'r model biofeddygol yn tybio y bydd gweithwyr iechyd proffesiynol yn gallu trin afiechyd/clefyd a bydd yr unigolyn yn cymryd rôl oddefol. • Nid yw'r model biofeddygol yn hybu ffordd iach o fyw e.e. os bydd unigolyn yn byw bywyd afiach heb unrhyw effaith andwyol, dylai barhau, tra bod y model cymdeithasol yn mynd ati'n rhagweithiol i annog unigolion i fyw bywyd iach.				

DRAFT

		Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.				

Band	AA3
3	**5-6 marc** Ymateb da iawn sy'n: • ystyried amrywiaeth o nodweddion y model cymdeithasol a'r model biofeddygol o iechyd, anabledd a llesiant, sy'n dangos y gwahaniaethau rhwng y ddau fodel yn glir • cynnwys ystyriaeth fanwl o'r ffyrdd y mae'r ddau fodel yn cyferbynnu.
2	**3-4 marc** Ymateb da sy'n: • ystyried nodweddion y model cymdeithasol a'r model biofeddygol o iechyd, anabledd a llesiant, sy'n dangos y gwahaniaethau rhwng y ddau fodel • cynnwys ystyriaeth gyffredinol o'r ffyrdd y mae'r ddau fodel yn cyferbynnu.
1	**1-2 farc** Ymateb sylfaenol sy'n: • ystyried rhai o nodweddion y model cymdeithasol a'r model biofeddygol o iechyd, anabledd a llesiant mewn ffordd syml • cynnwys ystyriaeth sylfaenol o'r ffyrdd y mae'r ddau fodel yn cyferbynnu.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

DRAFT

Cwestiwn	Ateb	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm Marciau
3.	*Mae rhaglenni imiwneiddio yn un math o fesur ataliol.* *Ystyriwch sut byddai strategaethau lleol a chenedlaethol a dewisiadau ffordd o fyw yn gallu cefnogi mesurau ataliol.*			10	10
	Gall atebion gyfeirio at y canlynol: Sut mae'n bosibl cefnogi mesurau ataliol fel a ganlyn: Unigolion sy'n gwneud dewisiadau ffordd o fyw mwy iach, er enghraifft: • rhoi'r gorau i ysmygu/lleihau faint y maent yn ei ysmygu: osgoi neu ddefnyddio gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu • rhoi'r gorau i yfed alcohol/lleihau faint o alcohol y maent yn ei yfed: osgoi camddefnyddio sylweddau • bwyta deiet iach: maeth a hydradiad digonol; dilyn canllawiau bwyta'n iach • gwneud ymarfer corff yn rheolaidd: gweithgareddau yn yr awyr agored, chwaraeon tîm, grwpiau ymarfer corff neu ymaelodi â champfa • cael rhyw, profiadau/perthnasoedd rhywiol diogel • mynychu rhaglenni sgrinio • cymryd rhan mewn rhaglenni rheoli straen/ymlacio • cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol: er mwyn osgoi mynd yn ynysig • sicrhau cydbwysedd bywyd/gwaith da. Unigolion yn dilyn mesurau ataliol, gan gynnwys: • rhaglenni sgrinio • rhaglenni brechu • rhaglenni risg cardiofasgwlaidd • lleihau effaith ysmygu • lleihau effaith camddefnyddio alcohol • lleihau nifer yr achosion o gwympo ymhlith oedolion hŷn, a'u heffaith • gwasanaethau rhoi’r gorau i ysmygu • cwmnïau yn cynnig buddiannau iechyd, megis gofal iechyd preifat, i weithwyr cyflogedig • grwpiau cefnogi a rhwydweithiau. Strategaethau lleol a chenedlaethol drwy'r canlynol, er enghraifft: • codi ymwybyddiaeth o risgiau ymddygiadau penodol mewn perthynas â materion iechyd. Strategaethau lleol a chenedlaethol, gan gynnwys: • ymgyrchoedd iechyd – posteri/byrddau hysbysebu/teledu a hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol. Nod y strategaethau yw: • dylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd • gwella llesiant corfforol a meddyliol a meithrin gwydnwch • annog ymddygiad iach • sicrhau dyfodol iach ar gyfer y genhedlaeth nesaf drwy ganolbwyntio ar y blynyddoedd cynnar				

DRAFT

	• diogelu'r cyhoedd rhag heintiau a bygythiadau amgylcheddol i iechyd • cefnogi gwaith i ddatblygu system iechyd a gofal cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar • meithrin a defnyddio gwybodaeth a sgiliau i wella iechyd a llesiant ledled Cymru. Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.				

Band	AA3
4	**9-10 marc** Ymateb gwych sy'n dangos: • barn graff a hyddysg am y ffordd y gall strategaethau lleol a chenedlaethol, a dewisiadau ffordd o fyw, gefnogi mesurau ataliol • ystyriaeth hyderus a manwl o'r ffordd y gall strategaethau lleol a chenedlaethol, a dewisiadau ffordd o fyw, gyfrannu at effaith gyffredinol mesurau ataliol.
3	**6-8 marc** Ymateb da sy'n dangos: • barn resymegol am y ffordd y gall strategaethau lleol a chenedlaethol, a dewisiadau ffordd o fyw, gefnogi mesurau ataliol • ystyriaeth drylwyr o'r ffordd y gall strategaethau lleol a chenedlaethol, a dewisiadau ffordd o fyw, gyfrannu at effaith gyffredinol mesurau ataliol.
2	**3-5 marc** Ymateb sylfaenol sy'n dangos: • barn ddilys cyffredinol am y ffordd y gall strategaethau lleol a/neu genedlaethol, a dewisiadau ffordd o fyw, gefnogi mesurau ataliol • ystyriaeth syml o'r ffordd y gall strategaethau lleol a/neu genedlaethol, a dewisiadau ffordd o fyw, gyfrannu at effaith gyffredinol mesurau ataliol.
1	**1-2 farc** Ymateb cyfyngedig sy'n dangos: • barn ddilys i ryw raddau am y ffordd y gall strategaethau lleol neu genedlaethol, a/neu ddewisiadau ffordd o fyw, gefnogi mesurau ataliol • ychydig o ystyriaeth o'r ffordd y gall strategaethau lleol neu genedlaethol, a/neu ddewisiadau ffordd o fyw, gyfrannu at effaith gyffredinol mesurau ataliol.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

DRAFT

Cwestiwn	Ateb	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm Marciau
4.	*Mae Dechrau'n Deg yn enghraifft o fenter gan Lywodraeth Cymru a gynlluniwyd i gyfrannu at wella iechyd, llesiant a gwydnwch y boblogaeth yng Nghymru.* *Esboniwch rôl Dechrau'n Deg yn gwella iechyd, llesiant a gwydnwch plant yng Nghymru.*		8		8
	Gall atebion gyfeirio at y canlynol: Rhaglen gan Lywodraeth Cymru yw Dechrau'n Deg sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau er mwyn helpu plant i gael y dechrau gorau mewn bywyd; gan fynd ati'n rhagweithiol i gefnogi plant mewn ardaloedd difreintiedig, a darparu cymorth dwys i blant a'u teuluoedd. Gall Dechrau'n Deg helpu i hybu iechyd, llesiant a gwydnwch plant yng Nghymru. Mae gan deuluoedd yr hawl i gael cefnogaeth megis: • gofal plant rhan-amser o ansawdd (sydd am ddim yn bennaf) i blant dwy a thair oed a darpariaeth gofal cofleidiol pan fydd plant yn dechrau yn y feithrinfa fel rhan o'r cynnig gofal plant am ddim 30 awr, er mwyn galluogi eu rhieni i weithio • gwell gwasanaeth gan ymwelwyr iechyd er mwyn helpu i gefnogi asesiadau risg • cyfle i rieni fynychu lleoliadau gyda'u plant a gweithio ochr yn ochr â nhw • cymorth ar rianta a mynediad i raglenni rhianta, ac i 'rwydweithio' â rhieni eraill • mynediad cyflymach i weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd e.e. ar gyfer gwasanaethau lleferydd ac iaith – cefnogaeth i blant ddysgu i siarad a chyfathrebu, a deietegwyr er mwyn helpu gyda maeth a hydradiad. Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.				

DRAFT

Band	AA2
4	**7-8 marc** Esboniad gwych sy'n dangos: • gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o rôl Dechrau'n Deg wrth hybu iechyd, llesiant a gwydnwch plant yng Nghymru • dealltwriaeth hyderus o amrywiaeth o ffyrdd y gall Dechrau'n Deg gyfrannu at wella iechyd, llesiant a gwydnwch plant.
3	**5-6 marc** Esboniad da iawn sy'n dangos: • gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o rôl Dechrau'n Deg wrth hybu iechyd, llesiant a gwydnwch plant yng Nghymru • dealltwriaeth gadarn o'r ffyrdd y gall Dechrau'n Deg gyfrannu at wella iechyd, llesiant a gwydnwch plant.
2	**3-4 marc** Esboniad da sy'n dangos: • gwybodaeth a dealltwriaeth gyffredinol glir o rôl Dechrau'n Deg wrth hybu iechyd, llesiant a gwydnwch plant yng Nghymru • dealltwriaeth gyffredinol gadarn o rai o'r ffyrdd y gall Dechrau'n Deg gyfrannu at wella iechyd, llesiant a gwydnwch plant.
1	**1-2 farc** Esboniad sylfaenol sy'n dangos: • rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o rôl Dechrau'n Deg wrth hybu iechyd, llesiant a gwydnwch plant yng Nghymru • rhywfaint o ddealltwriaeth o un ffordd o leiaf y gall Dechrau'n Deg gyfrannu at wella iechyd, llesiant a gwydnwch plant.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

DRAFT

Cwestiwn		Ateb	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm Marciau
5.	*Defnyddir y gair 'sylfaenol' (primary) i ddisgrifio un dull o hybu iechyd, llesiant a gwydnwch, gan mai ei nod yw lleihau'r risg i'r boblogaeth gyfan.*					
	(a)(i)	*Disgrifiwch ddau ddull arall o hybu iechyd, llesiant a gwydnwch, gan roi enghraifft o bob un.*	6			6
		Rhowch hyd at **3 marc** am bob dull **Rhowch 1 marc** am ddisgrifiad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o ddull o hybu iechyd, llesiant a gwydnwch. **Rhowch 2 farc** am ddisgrifiad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir o ddull o hybu iechyd, llesiant a gwydnwch. **Rhowch 1 marc** am enghraifft briodol/perthnasol. Gall atebion gyfeirio at: **Eilaidd:** wedi'i anelu at leihau ffactorau risg ar gyfer y rheini sydd eisoes yn wynebu risg, mesurau ataliol sy'n arwain at ddiagnosis cynnar a'r gallu i drin y clefyd, yr afiechyd neu'r anaf yn brydlon. Gall enghreifftiau eilaidd perthnasol gynnwys: • sgrinio rheolaidd ar gyfer canserau • profion clyw rheolaidd i'r rheini sy'n gweithio mewn amgylcheddau swnllyd • gwasanaethau rhoi’r gorau i ysmygu. **Trydyddol:** wedi'i anelu at leihau effaith cyflwr a gwella ansawdd bywyd ac atal problem rhag gwaethygu. Gall enghreifftiau trydyddol perthnasol gynnwys: • rhaglenni adsefydlu • grwpiau cefnogi • rhaglenni hunan-reoli. Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.				

DRAFT

Cwestiwn		Ateb	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm Marciau
5.	(a)(ii)	*Amlinellwch sut mae tueddiadau a phatrymau cyfredol o ran iechyd, llesiant a gwydnwch y boblogaeth yng Nghymru yn cefnogi'r angen am ymgyrchoedd iechyd a llesiant.*	6			6
		Gallai tueddiadau presennol yng Nghymru fod yn berthnasol i unrhyw rai o'r canlynol: • camddefnyddio alcohol/cyffuriau/ysmygu • cynnydd mewn clefydau cardiofasgwlaidd/canser/dementia/beichiogrwydd yn yr arddegau • bwyta'n iach/ymarfer corff/gordewdra/diffyg maeth • iechyd meddwl a llesiant • clefydau trosglwyddadwy a lefelau imiwneiddio • iechyd mamau a phlant/lefelau sgrinio • tai/digartrefedd/cyflogaeth/diweithdra • profiadau niweidiol yn ystod plentyndod • diogelu plant mewn angen/plant sy'n derbyn gofal • cydlyniant cymunedol/unigrwydd ac arwahanrwydd • manteisio ar wasanaethau gofal yn y cartref. Mae tueddiadau presennol yn cefnogi'r angen am ymgyrchoedd oherwydd: • eu bod yn tynnu sylw at y ffaith bod ymyrryd yn gynnar ac addysg yn ffordd gadarnhaol o wella iechyd a llesiant • gall ymgyrchoedd fod yn rhai ataliol – mae pobl yn byw'n hirach felly mae'n bosibl nad yw pryderon iechyd, a oedd yn amlwg yn flaenorol, yn berthnasol mwyach • gall ymgyrchoedd helpu i sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau iechyd a gwaith cynllunio ymlaen llaw • er bod ymgyrchoedd/mentrau yn cael eu cyflwyno, mae materion yn codi o hyd o ran iechyd a llesiant unigolion yng Nghymru • mae'r boblogaeth, ar y cyfan, yn byw'n hirach sy'n cyflwyno pryderon ychwanegol o ran iechyd a llesiant • mae tlodi yn dal i fod yn broblem fawr mewn rhai ardaloedd yng Nghymru sy'n effeithio ar: iechyd meddwl a llesiant, maeth, mynediad i gyfleusterau hamdden, amodau tai, gwres. Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.				

DRAFT

Band	AA1
3	**5-6 marc** Amlinelliad da iawn sy'n: • dangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o dueddiadau a phatrymau cyfredol o ran iechyd, llesiant a gwydnwch poblogaeth Cymru • dangos yn glir y ffordd y mae'r amrywiaeth o dueddiadau a phatrymau cyfredol yn cefnogi'r angen am ymgyrchoedd iechyd a llesiant perthnasol.
2	**3-4 marc** Amlinelliad da sy'n: • dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyffredinol gadarn o dueddiadau a phatrymau cyfredol o ran iechyd, llesiant a gwydnwch poblogaeth Cymru • dangos y ffordd y mae rhai o'r tueddiadau a'r patrymau presennol yn cefnogi'r angen am ymgyrchoedd iechyd a llesiant perthnasol.
1	**1-2 farc** Amlinelliad sylfaenol sy'n: • dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth, yn eithaf cyffredinol, o'r tueddiadau a'r patrymau cyfredol o ran iechyd, llesiant a gwydnwch poblogaeth Cymru • dangos y ffordd y mae un neu ddau o dueddiadau a phatrymau cyfredol yn cefnogi'r angen am ymgyrchoedd iechyd a llesiant.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

DRAFT

Cwestiwn		Ateb	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm Marciau
5.	(b)	*Trafodwch brif fanteision a chyfyngiadau'r rolau hybu iechyd mewn perthynas â hybu iechyd, llesiant a gwydnwch.*			8	8
		Gall atebion gyfeirio at: prif fanteision a chyfyngiadau'r rolau o ran hybu iechyd, llesiant a gwydnwch, gan gynnwys: Manteision • arbenigedd/gwybodaeth: hyfforddiant helaeth a chyfredol a mynediad i adnoddau sy'n golygu y gellir darparu gwasanaeth wedi'i bersonoli; gwybodaeth a phrofiad manwl o'r sectorau dan sylw a'r gwasanaethau sydd ar gael • cynulleidfa sy'n talu sylw: mentrau i unigolion ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol heb orfod mynd ati i recriwtio na churo ar ddrysau • gwybodaeth am yr unigolyn: meddu ar berthynas waith ag unigolyn a gallu sicrhau bod unrhyw atgyfeiriadau yn briodol i anghenion unigol yr unigolyn. Cyfyngiadau • cyfyngiadau o ran amser ac arian: efallai na fydd digon o amser i roi cymaint o gymorth â'r hyn sydd ei angen i bob unigolyn, gellir colli gwybodaeth bwysig; ddim yn gallu cael gafael ar yr arian priodol i gefnogi unigolion yn weithredol • yn gallu rhoi cyngor ond yn methu â gorfodi'r unigolyn i'w ddilyn (unigolion sy'n amharod i newid): efallai na fydd cyfle i ymchwilio i opsiynau amgen o ganlyniad i gyfyngiadau o ran amser ac arian – cysylltiedig â'r uchod • efallai na ellir targedu pawb mewn angen: cysylltiedig â'r materion uchod, efallai na fydd cyfle i gyrraedd pawb y mae angen help a chymorth arnyn nhw • nid yw un ateb yn addas i bawb: bydd y cyfyngiadau a nodwyd uchod weithiau'n golygu mai dim ond un opsiwn sy'n cael ei gynnig, ac efallai na fydd hyn yn addas i bawb. Dylai atebion gyfeirio at ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant allweddol sydd â rôl yn y gwaith o hybu iechyd, llesiant a gwydnwch. Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.				

DRAFT

Band	AA3
4	**7-8 marc** Trafodaeth wych sy'n dangos: • barn graff a hyddysg am amrywiaeth o fanteision a chyfyngiadau'r rolau hybu iechyd mewn perthynas â hybu iechyd, llesiant a gwydnwch • ymdriniaeth hyderus a manwl â chyfraniadau posibl ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant allweddol at y gwaith o hybu iechyd, llesiant a gwydnwch unigolion.
3	**5-6 marc** Trafodaeth dda sy'n dangos: • barn resymegol am fanteision a chyfyngiadau'r rolau hybu iechyd mewn perthynas â hybu iechyd, llesiant a gwydnwch • ymdriniaeth drylwyr â chyfraniadau posibl ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant allweddol at y gwaith o hybu iechyd, llesiant a gwydnwch unigolion.
2	**3-4 marc** Trafodaeth sylfaenol sy'n dangos: • barn gyffredinol ddilys am rai o fanteision a/neu gyfyngiadau'r rolau hybu iechyd mewn perthynas â hybu iechyd, llesiant a gwydnwch • ymdriniaeth syml â chyfraniadau posibl ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol a/neu ofal plant at y gwaith o hybu iechyd, llesiant a gwydnwch unigolion
1	**1-2 farc** Ymateb cyfyngedig sy'n dangos: • barn ddilys i raddau am nifer bach o fanteision neu gyfyngiadau'r rolau hybu iechyd mewn perthynas â hybu iechyd, llesiant a gwydnwch • ychydig o ymdriniaeth â chyfraniadau posibl ymarferwyr at y gwaith o hybu iechyd, llesiant a gwydnwch unigolion.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

DRAFT

Cwestiwn	Ateb	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm Marciau
6.	*Mae gordewdra yn enghraifft o ffactor risg y gellir ei haddasu o ran iechyd, llesiant a gwydnwch.* *Esboniwch sut gall **dau** ffactor risg arall sy'n gallu cael eu haddasu effeithio ar iechyd, llesiant a gwydnwch.*		8		8

	Gall atebion gyfeirio at:
	
	• camddefnyddio alcohol – risg pan fydd unigolyn yn yfed mwy na'r terfynau diogel a argymhellir yn rheolaidd. Gall camddefnyddio alcohol gynyddu'r risg o gyflyrau fel: clefyd y galon, strôc, clefyd yr afu/iau ac amrywiaeth o ganserau a all fod yn farwol. Mae risgiau eraill yn cynnwys damweiniau a achosir pan fydd unigolyn yn feddw, a all achosi anafiadau sy'n cyfyngu ar fywyd, neu drwy dagu ar gyfog a all fod yn farwol.
	
	• camddefnyddio sylweddau – gall arwain at ddod yn gaeth i'r sylwedd hwnnw ac o bosibl at ddos gormodol. Gall ymatebion gynnwys cyfeiriadau at y canlynol:
	  • damweiniau a achosir pan fydd unigolyn dan ddylanwad cyffuriau – a all achosi anafiadau sy'n cyfyngu ar fywyd neu farwolaeth
	  • dos gormodol damweiniol
	  • materion iechyd fel paranoia, problemau'r galon, colli cof, risg o haint os caiff nodwyddau eu rhannu.
	
	• ysmygu – gall ysmygu achosi clefydau sy'n cyfyngu ar fywyd megis canser yr ysgyfaint a chanserau eraill a gall hefyd:
	  • niweidio'r galon a chylchrediad y gwaed, gan gynyddu'r risg o: glefyd coronaidd y galon, trawiad ar y galon, strôc
	  • niweidio'r ysgyfaint, gan gynyddu'r risg o: glefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD), broncitis, emffysema a niwmonia
	  • gall waethygu cyflyrau anadlol fel asthma neu wneud iddynt barhau am gyfnod hwy
	  gall y rhain i gyd fod yn farwol yn ogystal ag achosi sefyllfaoedd sy'n cyfyngu ar fywyd oherwydd efallai na fydd unigolion yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol neu gerdded yn bell am fod diffyg anadl arnyn nhw.
	
	• clefydau heintus – wedi'u hachosi o bosibl gan unigolion nad ydynt wedi cael eu himiwneiddio neu drwy beidio â dilyn canllawiau hylendid/diogelwch, gall firysau arwain at glefyd heintus a all achosi effeithiau hirdymor neu farwolaeth e.e. AIDS, Hepatitis B, Hepatitis C, llid yr ymennydd, y frech goch, twbercwlosis (TB).
	
	• unigrwydd ac arwahanu cymdeithasol – gall arwain at unigolion yn peidio â gofalu am eu hunain yn iawn a gall arwain at broblemau iechyd meddwl, iselder a hunanladdiad.
	
	Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.				

DRAFT

Band	AA2
4	**7-8 marc** Esboniad gwych sy'n dangos: • gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ddau ffactor risg y gellir eu haddasu a'r effaith bosibl ar iechyd, llesiant a gwydnwch • dealltwriaeth hyderus o amrywiaeth o ffyrdd y gallai pob ffactor risg y gellir ei addasu effeithio ar iechyd, llesiant a gwydnwch unigolyn.
3	**5-6 marc** Esboniad da sy'n dangos: • gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o ddau ffactor risg y gellir eu haddasu a'r effaith bosibl ar iechyd, llesiant a gwydnwch • dealltwriaeth gadarn o'r ffyrdd y gallai ffactor risg y gellir ei addasu effeithio ar iechyd, llesiant a gwydnwch unigolyn.
2	**3-4 marc** Esboniad sylfaenol sy'n dangos: • gwybodaeth a dealltwriaeth gyffredinol glir o ddau ffactor risg y gellir eu haddasu, neu wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o un ffactor risg y gellir ei addasu, a'r effaith bosibl ar iechyd, llesiant a gwydnwch • dealltwriaeth gyffredinol gadarn o rai o'r ffyrdd y gallai pob ffactor risg y gellir ei addasu, neu ddealltwriaeth gadarn o'r ffordd y gallai un ffactor risg y gellir ei addasu effeithio ar iechyd, llesiant a gwydnwch unigolyn.
1	**1-2 farc** Esboniad cyfyngedig sy'n dangos: • rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o ddau ffactor risg y gellir eu haddasu, neu wybodaeth a dealltwriaeth gyffredinol glir o un ffactor risg y gellir ei addasu, a'r effaith bosibl ar iechyd, llesiant a gwydnwch • rhywfaint o ddealltwriaeth o un ffordd o leiaf y gallai pob ffactor risg y gellir ei addasu, neu ddwy ffordd y gallai un ffactor risg y gellir ei addasu effeithio ar iechyd, llesiant a gwydnwch unigolyn.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

DRAFT

Cwestiwn	Ateb	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm Marciau
7.	*Disgrifiwch brif nodweddion cysyniadau cyfannol o iechyd a llesiant, ac ystyriwch sut mae penderfynyddion cymdeithasol ac economaidd yn cyfrannu at anghydraddoldebau ym maes gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.*	**6**		**8**	**14**
	Gall atebion gyfeirio at: cysyniadau cyfannol o iechyd a llesiant: • ystyried y person cyfan a sut mae'n rhyngweithio â'i amgylchedd • ystyried elfennau corfforol, meddyliol, emosiynol ac ysbrydol bywyd unigolyn • eu hystyried fel dull o fyw • ystyried y ffordd y mae dewisiadau bywyd bob dydd yn effeithio ar iechyd a llesiant • pwysleisio'r cysylltiad rhwng y meddwl, y corff a'r enaid • annog pobl i gymryd cyfrifoldeb am eu lefel eu hunain o lesiant • yn seiliedig ar y syniad nad yw'r iechyd gorau posibl yn seiliedig ar absenoldeb clefyd yn unig, ond ar gydbwysedd byw'r 'person cyfan'. Gall penderfynyddion cymdeithasol ac economaidd a sut maent yn cyfrannu at anghydraddoldebau ym maes gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau gynnwys: • nodweddion personol – gan gynnwys rhyw, oedran, grŵp ethnig a ffactorau etifeddol: unigolion o oedran penodol nad oes ganddynt neb i siarad ar eu rhan ac efallai nad ydynt yn teimlo'n ddigon cyfforddus/hyderus yn rheoli eu canlyniadau eu hunain; yn yr un modd, unigolion o grwpiau ethnig amrywiol a all ei chael hi'n anodd am eu bod yn dod o ddiwylliant gwahanol; os yw cyflwr wedi'i etifeddu, efallai y bydd unigolion yn ei chael hi'n anodd dod i delerau â chymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. • ffactorau ffordd o fyw – gan gynnwys ymddygiadau fel deiet, ysmygu, defnydd o alcohol, camddefnyddio sylweddau ac ymarfer corff: gall dewisiadau ffordd o fyw unigolion effeithio ar eu dulliau o gysylltu'r gwaith o reoli eu gofal • gwydnwch personol a theuluol – gan gynnwys adfyd a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod: gall achosi i ddulliau byw unigolion amrywio'n helaeth. Bydd gan rai wydnwch a chefnogaeth gadarn gan y teulu, ond gallai eraill, a all fod wedi wynebu adfyd, ei chael hi'n anodd delio â gweithwyr meddygol proffesiynol ac ati • rhwydweithiau cymdeithasol a chymunedol - gan gynnwys cylchoedd teuluol a chymdeithasol ehangach: gall unigolion sydd ag amrywiaeth ehangach o deulu, ffrindiau a rhwydweithiau cymunedol fod yn fwy agored i gysyniadau cyfannol o ran iechyd a llesiant, a bod yn barod i gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain				

DRAFT

	• amodau byw a gweithio – gan gynnwys mynediad a chyfleoedd mewn perthynas â swyddi, tai, addysg a mynediad i wasanaethau. Gall ffactorau sy'n berthnasol i'r rhain fod yn rhwystrau o ran gofal i rai unigolion, felly gall fod yn anodd cymhwyso cysyniadau cyfannol yn effeithiol. • amodau economaidd-gymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol: yn cynnwys ffactorau fel tlodi, incwm gwario, iaith (dwyieithog, amlieithog), natur wledig ac argaeledd gwaith. Nodir llawer o'r problemau sy'n debyg i'r rheini a nodwyd uchod eisoes yn benodol er mwyn cynnwys rhwystrau i ofal a'r effaith ar ofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. • gwerthoedd, credoau ac agweddau tuag at iechyd a llesiant – gan gynnwys credoau diwylliannol a chrefyddol, agweddau cadarnhaol a negyddol. Efallai y bydd yn cyfeirio rhywfaint at y gwahaniaethau rhwng y cenedlaethau sy'n bodoli o bosibl mewn perthynas ag agweddau tuag at awdurdod a chymryd cyngor; natur gyfreithgar cymdeithas fodern a'r effaith ar wasanaethau a ddarperir a chanlyniadau o ganlyniad i hynny. • gwahaniaethu – gan gynnwys yn uniongyrchol, yn anuniongyrchol, drwy gysylltiad, drwy ganfyddiad a thrwy gymryd camau cadarnhaol i osgoi neu leihau gwahaniaethu. Mae natur a diffiniad gwahaniaethu yn creu anghydraddoldeb – gydag effeithiau ar ofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau o ganlyniad uniongyrchol. Gall unigolion fabwysiadu safbwynt rhagweithiol er mwyn ceisio lleihau neu atal gwahaniaethu, a all gael effaith gadarnhaol ar eu canlyniadau o ran iechyd a llesiant. Gall sylwadau hefyd gynnwys rhai manylion am y ffaith mai'r unigolyn yn unig a fydd â rheolaeth dros rai o'r ffactorau a restrir uchod. Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.				

DRAFT

Band	AA1	AA3

4	Nid oes unrhyw farciau Band 4 ar gyfer yr amcan asesu hwn. Dyfernir 6 marc ar gyfer Band 3.	**7-8 marc**
		• Ymateb gwych sy'n dangos:
		  • barn graff a hyddysg am y ffordd y gall amrywiaeth o benderfynyddion cymdeithasol ac economaidd gyfrannu tuag at anghydraddoldebau o ran gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau
		  • ymdriniaeth hyderus a manwl o gysyniad y penderfynyddion cymdeithasol ac economaidd a'u heffaith bosibl ar y ddarpariaeth gofal.
		
		Caiff ymateb yr ymgeisydd ei fynegi'n glir ac mae'n dangos defnydd cywir o amrywiaeth eang o derminoleg. Mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda iawn ac yn drefnus iawn, gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir.

3	**5-6 marc**
	• Ymateb da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr am brif nodweddion cysyniadau cyfannol o iechyd a llesiant.
		5-6 marc
		• Ymateb da sy'n dangos:
		  • barn resymegol am y ffordd y gall penderfynyddion cymdeithasol ac economaidd gyfrannu at anghydraddoldebau ym maes gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau
		  • ymdriniaeth drylwyr â chysyniad y penderfynyddion cymdeithasol ac economaidd a'u heffaith bosibl ar y ddarpariaeth gofal.
		
		Caiff ymateb yr ymgeisydd ei fynegi'n glir ac mae'n dangos defnydd cywir o derminoleg. Mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda, gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir ar y cyfan.

2	**3-4 marc**
	• Ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o rai nodweddion o gysyniadau cyfannol o iechyd a llesiant.
		3-4 marc
		• Ymateb sylfaenol sy'n dangos:
		  • barn gyffredinol ddilys am y ffordd y gall penderfynyddion cymdeithasol a/neu economaidd gyfrannu at anghydraddoldebau ym maes gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau
		  • ymdriniaeth syml â chysyniad y penderfynyddion cymdeithasol a/neu economaidd a'u heffaith bosibl ar ddarpariaeth gofal.
		
		Caiff ymateb yr ymgeisydd ei fynegi'n ddigonol ac mae'n dangos defnydd priodol o derminoleg. Ar y cyfan mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda gyda gramadeg, atalnodi a sillafu eithaf cywir.

DRAFT

Band	AA1	AA3

1	**1-2 farc**
	• Ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth, yn gyffredinol, am nodweddion cysyniadau cyfannol o iechyd a llesiant.
		1-2 farc
		• Ymateb cyfyngedig sy'n dangos:
		  • barn ddilys ar y cyfan am y ffordd y gall penderfynyddion cymdeithasol neu economaidd gyfrannu at anghydraddoldebau gofal
		  • ychydig o ymdriniaeth â'r cysyniad o benderfynyddion cymdeithasol neu economaidd a'u heffaith bosibl ar y ddarpariaeth gofal.
		
		Mae ymateb yr ymgeisydd yn dangos defnydd sylfaenol o derminoleg. Mae peth tystiolaeth o strwythur i'r gwaith ysgrifennu ond mae gwallau i'w gweld o ran gramadeg, atalnodi a sillafu.

	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.	**0 marc** Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

DRAFT

Cwestiwn			Cynnwys y fanyleb (prif ffocws)				Dyraniad marciau			
			Adran			Rhan	Cyfans wm Marciau	Marciau AA1	Marciau AA2	Marciau AA3
			2.1.1	2.1.2	2.1.3					
1				8		(c)	**8**	8	0	0
2	(a)		6			(a)	**6**	6	0	0
	(b)		6			(b)	**6**	0	0	6
3					10	(a)	**10**	0	0	10
4					8	(d)	**8**	0	8	0
5	(a)	(i)			6	(ch)	**6**	6	0	0
		(ii)		6		(b)	**6**	6	0	0
	(b)				8	(dd)	**8**	0	0	8
6					8	(b)	**8**	0	8	0
7			6	8		(c) (a)	**14**	6	0	8
Cyfanswm marciau			**18**	**22**	**40**		**80**	**32**	**16**	**32**

DRAFT